

GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A THAI
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

AMODAU TRWYDDEDU A CHANLLAW AR GYFER
CYTIAU CŴN PRESWYL

Cynnwys

1. AMODAU CYFFREDINOL

- 1.1 Dangos Trwydded
- 1.2 Cymeradwyaeth yr Awdurdod

2. LLETY AC AMGYLCHEDD

- 2.1 Adeiladwaith
- 2.2 Maint y Llety
- 2.3 Gwely
- 2.4 Tymheredd a Gwres
- 2.5 Golau
- 2.6 Awyru
- 2.7 Glanweithdra
- 2.8 Cŵn ar Grwydr
- 2.9 Rheoli Plâu
- 2.10 Draeniad a Chael Gwared ar Wastraff

3. DIET A MAETH

- 3.1 Bwyd a Diod
- 3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio

4. YMDDYGIAD ARFEROL

- 4.1 Cyfleusterau Ymarfer Corff
- 4.2 Goruchwyllo
- 4.3 Nifer Uchaf o Gŵn y Gellir eu Cadw a Gofynion Staff

5. IECHYD A LLES

- 5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg
- 5.2 Rheoli Clefydau a Chael Brechiadau
- 5.3 Cyfleusterau Arwahanu
- 5.4 Gofynion Amrywiol
- 5.5 Cludo Cŵn

- 5.6 Diogelu rhag Tân
- 5.7 Diogelwch Offer Trydanol

6. CADW COFNODION

- 6.1 Cofrestr
- 6.2 Adnabod **Cytiau Cŵn**

7. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006

- 7.1 Meddyginiaeth Rheolaidd
- 7.2 Cymdeithasu
- 7.3 Ysgogiad Gweledol
- 7.4 Adnabod **Cŵn**

ARGYMHELLIAD

Polisi Yswiriant

MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â GWEITHREDU SEFYDLIAD TRWYDDEDIG

- A – Dull Apeliadau
- B – Canllaw Rhagofalon Tân
- C – Iechyd a Diogelwch

1. AMODAU CYFFREDINOL

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>1.1 Dangos Trwydded</p> <p>a. Rhaid dangos copi o'r drwydded a'i hamodau cysylltiedig yn addas i'r cyhoedd mewn lle amlwg yn, ar, neu o amgylch yr adeilad, neu ar gael i bob un sy'n preswyllo.</p>	
<p>1.2 Cymeradwyaeth yr Awdurdod</p> <p>a. Ni chaiff unrhyw anifeiliaid heb law cŵn breswyllo yn y cyfleusterau trwyddedig heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol.</p> <p>b. Ni ddylai cŵn ar grwydr gael preswyllo heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr awdurdod lleol.</p>	<p>Cynghorir deiliaid trwyddedau i roi gwybod i gleientiaid posibl fod cyfleuster i gŵn ar grwydr yn cael ei weithredu yn y sefydliad.</p>

2. Llety ac Amgylchedd

Rhaid cadw cŵn mewn llety sy'n addas o ran adeiladwaith, maint y llety, gwely, cyfleusterau ymarfer corff, tymheredd a gwres, golau, awyru, glanweithdra, a chael gwared ar wastraff.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>2.1 Adeiladwaith</p> <ul style="list-style-type: none">a. Ni ddylid defnyddio unrhyw adeilad na llety ac eithrio'r rhai a nodir ar y cynllun a gymeradwywyd, sydd ynghlwm i'ch trwydded.b. Rhaid i'r adeilad gael ei osod a'i weithredu bob amser yn unol â chynllun a gymeradwywyd.c. Cyn gwneud unrhyw addasiadau, rhaid i gynlluniau gael eu cyflwyno i, a'u cymeradwyo gan, yr awdurdod lleol.d. Ni ddylid defnyddio unrhyw lety newydd nes ei fod wedi derbyn cymeradwyaeth yr awdurdod trwyddedu.e. Rhaid i bob arwyneb mewnol a ddefnyddir yn adeiladwaith waliau, lloriau, palisau, drysau a fframiau drysau fod yn wydn, esmwyth ac yn anhydraidd ac yn hawdd i'w glanhau.f. Ni ddylid defnyddio pren sydd yn y golwg yn adeiladwaith waliau, lloriau, palisau, yn ardal y cytiau cŵn.g. Lle bod pren wedi'i ddefnyddio yn yr adeiladwaith presennol dylid gosod deunydd gwydn, esmwyth, anhydraidd heb law am baent o'i flaen. Ni ddylai unrhyw beth a allai achosi anaf fod yn ymestyn allan.h. Rhaid i waliau palis rhwng cytiau cŵn fod o wneuthuriad cadarn hyd at uchafswm uchder o 1.1mi. Rhaid i loriau pob adeilad, ardal ymarfer corff a chytiau cŵn fod wedi'u creu o ddeunyddiau esmwyth, anhydrin	<p>Y cynllun a gymeradwywyd yw'r "cynllun" diagram sydd wedi'i gynnwys yn eich trwydded flynyddol. Cynghorir yn gryf bod pob deiliad trwydded yn gofyn am ganllawiau cynllunio posibl y gallai fod angen mewn perthynas â 'newid defnydd' adeiladau presennol neu godi adeiladau newydd. Nid yw caniatáu trwydded yn rhoi unrhyw fath o ganiatâd cynllunio.</p> <p>Dylid dylunio cytiau cŵn ac adeiladau yn y fath fodd fel eu bod yn lleihau sŵn. Dylid rhoi ystyriaeth ddigonol i sensitifrwydd cŵn i sŵn amledd uchel a'i ymgorffori yn y dyluniad lle bod angen. Dylai dyluniad y cwt ci sicrhau fod mynediad parhaus gan bob ci i fan gorffwys cyfforddus, sych, di-ddrafft, glân a distaw.</p> <p>Dylai'r dyluniad ystyried cyfeiriad daearyddol e.e. mae'n bosibl y bydd yn anoddach gwresogi cytiau cŵn sy'n wynebu tua'r gogledd. Bydd gosod cwt i wynebu'r cyfeiriad cywir yn caniatáu defnydd llawn o oleuni naturiol.</p> <p>Mae angen waliau palis o wneuthuriad cadarn hyd at uchafswm uchder o 4' fel rhwystrau tisian / cyffwrdd rhwng cŵn sy'n ymweld, a gall helpu lleihau gwasgariad afiechydon heintus.</p> <p>Dylid cynnal adeiladau, llwybrau, gerddi ac ardaloedd ymarfer corff yn dda a dylent fod mewn cyflwr da, glân, diogel. I sicrhau fod ffenestri yn atal dianc, dylid eu diogelu gyda</p>

<p>sy'n hawdd i'w glanhau a rhaid iddynt ymgorffori pilen gwrth-ddamp.</p> <ul style="list-style-type: none"> j. Rhaid i loriau gynnwys goledd digonol i ganiatáu draenio effeithiol yn arwain i sianel ddraenio, a rhaid iddo ddarparu digon o afael i'r ci fedru cerdded neu redeg heb lithro. k. Rhaid i ddrysau fod yn ddigon cryf i wrthsefyll gwrthdrawiad a chrafu a dylent fod yn ddigon tyn, a dylai fod modd eu diogelu'n effeithiol. l. Lle defnyddir bariau a fframiau metel rhaid i'w maint fod yn addas i atal cŵn rhag dianc na chael eu dal ynddo. m. Lle defnyddir ymylau metel, ni ddylai olygu bod risg y bydd y ci yn dioddef anaf. n. Lle defnyddir drysau gydag arwyneb plastig gydag ymyl metel, rhaid i ymyl metel noeth gael ei siamffro'n ddigonol i atal anaf i'r ci. o. Rhaid cael gwneuthuriad sy'n sicrhau diogelwch y ci. p. Rhaid i gytiau cŵn ac ardaloedd ymarfer corff agor allan i ardaloedd diogel i sicrhau na all y cŵn ddianc o'r adeilad. q. Rhaid i bob ffenestr sy'n peri risg diogelwch allu atal dianc ar bob amser. 	<p>rhwyllau wedi'u weldio, neu eu gwneud o wydr wedi'i atgyfnerthu, polycarbonad neu ddeunydd arall sy'n gallu gwrthsefyll gwrthdrawiad.</p>
<p>2.2 Maint y Llety</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid darparu lle cysgu ym mhob cwt ci sy'n addas ar gyfer cysur y ci sy'n derbyn llety gan ystyried y maint a'r brîd. b. Rhaid darparu ardal ymarfer corff gyda phob cwt ci sydd ar wahân i'r lle cysgu ac wedi'i neilltuo i'r cwt ci hwnnw yn unig, i'r ci gael ei ddefnyddio'n rhydd bob amser heb law pan ei fod wedi'i roi yn ei gwt dros nos. 	<p>Y disgwyliad yw mai maint cyfartalog yr ardal ar gyfer cysgu fyddai 1.2 metr sgwâr. Byddai hyn yn caniatáu lle ar gyfer gwely i gi maint canolig - mawr a hyd at ddau gi maint bach - canolig.</p> <p>Dylai'r cwt fod yn ddigon mawr i ganiatáu pob ci i fedru cerdded, troi yn yr unfan ac ysgwyd eu cynffonau heb gyffwrdd ochr y cwt, i chwarae, i sefyll ar eu coesau ôl a gorwedd i lawr heb gyffwrdd ag unigolyn arall.</p>

<p>c. Rhaid i'r isafswm o ran maint ar gyfer ardaloedd ymarfer corff (heb gynnwys yr ardal gysgu) fod fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ci bach – 2.25 metr sgwâr • Ci canolig - 2.8 metr sgwâr • Ci mawr – 4.5 metr sgwâr <p>d. Rhaid i gytau cŵn gydymffurfio ag isafswm uchder o 1.8 metr i ganiatáu mynediad digonol gan staff y cytiau cŵn er mwyn glanhau.</p>	<p>Pan fod yr anifail/anifeiliaid yn y cwt dylai fod digon o le i agor y drws yn llawn.</p> <p>Mae'r diffiniad a defnyddir ar gyfer cŵn bach, canolig a mawr i'w cael ar wefan y Kennel Club. www.thekennelclub.org.uk</p> <p>Rhai i eiddo trwyddedig presennol nad ydynt yn cyflawni'r dimensiynau isafswm ddarparu cyfleusterau ymarfer corff amgen e.e. amseroedd cerdded wedi'u trefnu ac/neu redeg yn yr awyr agored.</p>
<p>2.3 Gwely</p> <p>a. Rhaid darparu gwely neu offer addas sy'n caniatáu'r ci i fod yn gyfforddus ac sy'n bosibl ei lanhau'n ddigonol a'i sterileiddio a rhaid iddo fod wedi'i osod mewn man lle nad oes drafft.</p> <p>b. Rhaid i bob deunydd gwely gael eu cynnal mewn cyflwr glan, rhydd o barasitiaid a sych.</p> <p>c. Rhaid i wely ci fod o wneuthuriad gwydn anhydraidd a bod o faint addas ar gyfer y brîd o gŵn sy'n cael eu cadw.</p>	<p>Yn ymarferol mae'n bosibl y bydd y perchennog yn darparu gwely/deunydd gwely'r ci ei hun.</p> <p>Gallai deunydd gwely addas i'w ddarparu gan y sefydliad lletyo gynnwys 'vet bed' neu ddeunydd cyffelyb. Mae'n hawdd golchi a sychu'r math hwn o ddeunydd gwely.</p> <p>Y diffiniad o wely cŵn yw sail gyda thri neu bedair o waliau ochr (3D) gyda'r opsiwn o gynnwys to.</p>
<p>2.4 Tymheredd a Gwres</p> <p>a. Rhaid insiwleiddio manau cysgu mewn cytau cŵn i atal tymheredd eithafol.</p> <p>b. Dylid cadw man cysgu'r cwt ar dymheredd rhwng 10C a 26C.</p> <p>c. Yn y cytiau arwahanu rhaid cael dull o gynnal y tymheredd ar lefel addas ar gyfer cyflwr y ci, ac yn dibynnu ar gyngor y milfeddyg. Er hynny, ni chaniateir i wres yn yr ardal</p>	<p>Er mwyn cynnal y tymheredd yn ôl y gofyn, efallai y bydd ffynonellau gwres unigol i gŵn yn ddigonol. Mewn rhai amgylchiadau bydd gofyn am wres cefndirol ychwanegol hefyd.</p> <p>Dylai dyfeisiau a ddefnyddir i wresogi ac oeri fod yn ddiogel ac ni ddylent beri risg o losgi neu drydanu rhywun. Ni ddylid defnyddio cyfarpar fflam agored a dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.</p>

<p>arwahanu fynd dros 26C neu'n is na 13C.</p> <ul style="list-style-type: none"> d. Rhaid darparu thermomedr 'isafswm – uchafswm' ar bob bloc o gytiau a phob uned arwahanu. e. Rhaid i'r sawl sydd â thrwydded sicrhau fod pob cyfarpar gwres yn ddiogel ac yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio ar gyfer yr anifeiliaid a'r bobl sy'n gweithio yno. f. Ni ddylid gosod cyfarpar gwresogi mewn lleoliad na modd a allai achosi risg tân, neu risg i'r cŵn. 	
<p>2.5 Golau</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Yn ystod oriau golau dydd, rhaid darparu golau (naturiol os yn bosibl) yn y manau ymarfer corff a chysgu fel bod pob rhan yn weladwy iawn. b. Rhaid darparu golau artiffisial mewn manau sy'n cael eu defnyddio ar ôl oriau golau dydd. c. Rhaid gosod gorchuddion plastig ar bob golau artiffisial i osgoi anafiadau posibl i gŵn yn sgil gwydr wedi torri. 	<p>Mae angen i gŵn fod mewn amgylchedd sy'n caniatáu golau digonol yn ystod oriau golau dydd; dylid diffodd unrhyw olau artiffisial yn y nos i ganiatáu patrymau cysgu naturiol.</p> <p>Mae angen i olau artiffisial fod ar gael i alluogi gwiriadau trylwyr ar y cŵn y tu allan i oriau golau dydd.</p> <p>Mae lampau gwres hefyd yn allyrru golau. Oherwydd eu natur gosodir lampau gwres ar lefel isel ac ni ellir gosod gorchuddion plastig arnynt ond dylent gynnwys rhwyllau metel i atal cŵn rhag dod i gyswllt uniongyrchol â bylbiau poeth.</p>
<p>2.6 Awyru</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid darparu system awyru yn yr ardaloedd cysgu ac ymarfer corff, heb greu drafft gormodol, mewn manau yn yr ardal gysgu. 	<p>Dylai awyru yn y llety dan do i'r holl gŵn ddarparu digon o awyr iach o ansawdd priodol a dylent gadw lefelau a gwasgariad arogleuon, nwyon gwenwynig, llwch a chyfryngau heintus o unrhyw fath yn isel, a rhyddhau gwres a lleithder gormodol</p> <p>Dylid dylunio'r system awyru fel ei bod yn atal drafftiau a sŵn niweidiol.</p>

<p>2.7 Glanweithdra</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid cadw pob cwt, coridor, ardaloedd cyffredin, ceginau ac ati, yn lân ac ni ddylai baw na llwch gasglu yn y manau hyn, a rhaid eu cadw fel hyn fel eu bod yn addas ar gyfer rheoli clefydau ac yn gyfforddus i'r cŵn. b. Rhaid glanhau pob cwt ci unwaith y dydd. c. Rhaid cael gwared ar unrhyw garthion a deunydd sydd wedi'u baeddu o ardaloedd a ddefnyddir gan gŵn o leiaf unwaith y dydd ac yn amlach os oes angen. d. Rhaid glanhau a diheintio pob cwt ci yn drwyadl a'u sychu pan mae ci yn gadael neu bob saith niwrnod pa bynnag un sydd fyrraf. e. Rhaid glanhau a diheintio pob gosodiad a deunydd gwely yn drwyadl cyn eu hail-ddefnyddio. 	<p>Ceir rhestr o ddiheintyddion ar:</p> <p><u>http://disinfectants.defra.gov.uk/</u></p>
<p>2.8 Cŵn ar Grwydr</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Os yw cytiau cŵn preswyl hefyd yn gweithredu fel lloc i gŵn ar grwydr, dylai'r cyfleuster lloc weithredu fel mentr gwbl ar wahân. b. Os yw cŵn ar grwydr yn cael eu derbyn gan y cytiau preswyl rhaid iddynt gael eu cadw mewn bloc o gytiau cŵn ar wahân i ffwrdd o'r cŵn preswyl, sy'n rhaid eu lleoli o leiaf 5m i ffwrdd o gytiau cŵn eraill. c. Rhaid i'r bloc cŵn ar grwydr hefyd gydymffurfio'n llwyr ag amodau 2.1 – 2.7 	<p>Y rheswm dros arwahanu'r cyfleuster preswyl gyda'r lloc i gŵn ar grwydr yw'r ffaith nad ydym yn gwybod statws iechyd a brechiadau'r cŵn ar grwydr.</p> <p>Dylai staff sicrhau eu bod yn glanhau a diheintio eu dwylo, dillad ac esgidiau wrth fynd i mewn neu wrth adael y cytiau cŵn ar grwydr.</p> <p>Yn ddelfrydol, dylai ffordd i mewn a mynedfa'r cytiau cŵn ar grwydr fod yn gwbl ar wahân i'r cytiau preswyl. Os nad yw, dylid cyflwyno mesurau bioddiogelwch caeth i ddiogelu iechyd a lles y cŵn preswyl.</p>

<p>2.8 Rheoli Plâu</p> <p>a. Rhaid cyflwyno mesurau i sicrhau nad oes unrhyw lygod, pryfaid neu unrhyw blâu eraill yn y sefydliad a bod cŵn yn rhydd o barasitiaid allanol.</p>	<p>Dylid dilyn canllaw'r gwneuthurwr wrth ddefnyddio cynhyrchion rheoli er mwyn lleihau'r risg i gŵn.</p>
<p>2.9 Draeniad a Chael Gwared ar Wastraff</p> <p>a. Rhaid i'r sefydliad fod wedi'i gysylltu â'r brif garthffos neu system waredu carthion leol wedi'i chymeradwyo.</p> <p>b. Rhaid i lorïau mewnol pob cwt ci a godir o'r newydd gael eu hadeiladu fel eu bod yn cynnig goledd digonol i leoliad y sianel ddraenio er mwyn cludo'r hyn a olchir o bob cwt a'i ollwng i mewn i gyli gaeedig sy'n cysylltu â'r system ddraenio dŵr budr.</p> <p>c. Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, storio a chael gwared ar wastraff yn y dull cywir.</p> <p>d. Dylid cymryd gofal penodol i wahanu gwastraff clinigol sy'n codi wrth drin a thrafod cathod gyda chlefydau heintus.</p>	<p>Dylai deiliad y drwydded wirio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd am y canllaw cyfredol ynglŷn â'r dull addas o gael gwared ar wastraff.</p>

3. Diet a Maeth

Rhaid i bob ci sy'n preswyllo gael digon o fwyd addas. Rhaid i ddŵr iach fod ar gael drwy'r amser a rhaid ei newid yn ddyddiol. Rhaid i gyfleusterau paratoi bwyd digonol fod ar gael.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>3.1 Bwyd a Diod</p> <ul style="list-style-type: none">a. Rhaid cyflenwi diet addas i bob ci yn ôl ei fath, oed a'i frîd.b. Rhaid darparu bwyd o'r fath mor aml ag y nodir gan berchennog y ci.c. Rhaid i gŵn gael mynediad at ddŵr ffres, glân bob amser.d. Rhaid darparu llestri bwyta ac yfed gyda dyluniad sy'n atal gollyngiadau gymaint â phosibl.e. Mae'n rhaid ei bod yn bosibl glanhau, diheintio a sterileiddio llestri a rhaid eu cynnal mewn cyflwr glân.	<p>Gallai hyn gael ei ddarparu gan berchennog y ci i osgoi unrhyw newid sydyn yn niet y ci a allai beri problemau treulio.</p>
<p>3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio</p> <ul style="list-style-type: none">a. Rhaid darparu cyfleusterau addas, wedi'u hadeiladu a'u cynnal a'u cadw mewn modd glân ar gyfer storio a pharatoi'r bwyd ar gyfer y cŵn.b. Lle bod cigoedd ffres ac wedi'u coginio yn cael eu storio, rhaid darparu cyfleusterau oergell. Rhaid osgoi halogi bwyd.c. Rhaid i sinc a dŵr poeth ac oer fod ar gael er mwyn glanhau cyfarpar cegin a llestri bwyta ac yfed.d. Rhaid darparu cynwysyddion i storio bwyd a byddant wedi'u hadeiladu a'u cynnal mewn cyflwr da fel eu bod yn atal pryfed a phlâu.	<p>Gall hyn naill ai fod drwy gael ystafell ar wahân neu ardal ddynodedig neilltuol ar gyfer y cŵn preswyl.</p> <p>Dylai fod yn hawdd glanhau a diheintio arwynebau yn ôl yr angen a dylent fedru sychu yn gyflym. Dylid storio pob bwyd yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ffres, sych ac nad oes risg o lygru gan fermin.</p>

4. Ymddygiad Arferol

Mae'n rhaid i gŵn allu dangos patrymau ymddygiad arferol bob amser. Mae'n rhaid iddynt gael cyfle i fwynhau ymarfer corff a chael eu goruchwyllo'n ddigonol.

Amod y drwydded	Canllaw
<p>4.1 Cyfleusterau Ymarfer Corff</p> <ul style="list-style-type: none">a. Rhaid i gŵn dderbyn ymarfer corff yn ôl dymuniadau'r perchennog.b. Os caiff cŵn eu cymryd oddi ar yr eiddo, rhaid iddynt gael eu cadw ar denynnau oni bai fod caniatâd ysgrifenedig y perchnogion yn caniatáu ymarfer corff heb dennyn.c. Rhaid i ardal ymarfer corff / gardd yr eiddo ac unrhyw ardal arall, y mae gan y cŵn preswyl fynediad iddynt, fod yn gwbl sicr a diogel.d. Rhaid i ffensys fod yn ddigonol i gynnig diogelwch i atal dianc a bod yn ddiogel, heb unrhyw wrthrychau miniog peryglus na darnau'n ymwithio allan.e. Rhaid i gatiau fod yn ddiogel.	<p>Er y gallai fod yn amhriodol i rai cŵn gael eu rhoi allan mewn ardaloedd cymunedol dylid cyflwyno dewis arall fel cerdded ar dennyn. Byddai'n well cael caniatâd gan y perchnogion os bydd hyn yn digwydd y tu allan i'r eiddo</p> <p>Dylid rhoi ystyriaeth i uchder gofynnol a'r deunyddiau ffens a ddefnyddir ar gyfer yr ardal(oedd) ymarfer corff/chwarae yn dibynnu ar fath a maint y cŵn sy'n defnyddio'r cyfleuster.</p> <p>Mae'n anoddach glanhau ardaloedd gwair ac osgoi crynodiadau o'u cymharu ag iard goncrïd neu ddeunydd tebyg. Dylid glanhau carthion o leiaf unwaith y dydd ac mae'n bosibl y bydd angen dull arall fel cerdded ar dennyn os bydd tywydd gwlyb yn achosi i'r ardal o wair fod yn fwdlyd/gwlyb.</p>
<p>4.2 Goruchwyliaeth</p> <ul style="list-style-type: none">a. Os yw deiliad y drwydded yn absennol am gyfnod sylweddol rhaid i'r dylai unigolyn addas a chymwys sy'n o leiaf 16 mlwydd oed fod yn gyfrifol am oruchwyllo'r eiddo.b. Os nad oes unrhyw un yn goruchwyllo'r cytiau cŵn am	<p>Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n goruchwyllo'r cŵn gael gwybodaeth ddigonol a phrofiad i allu ymdrin â'r cŵn yn gywir ac yn ddiogel. Mae'n rhaid iddynt allu adnabod os yw ymddygiad ci yn awgrymu bod problem a gweithredu'n briodol.</p>

<p>gyfnodau byr, dylid arddangos enw a rhif cyswllt mewn man amlwg a dylid gadael y cytiau'n ddiogel.</p> <p>c. Dylai fod gan y rhai hynny sy'n goruchwylio, wybodaeth drylwyr a manwl o'r amodau trwyddedu a chydymffurfio â nhw bob amser.</p> <p>d. Dylid ymweld â Chŵn yn rheolaidd, yn ôl yr angen i wirio eu hiechyd, diogelwch a'u lles.</p>	<p>Dylai fod gan staff fynediad at God Ymarfer ar Les Cŵn a bod yn gyfarwydd ag ef a phob deddfwriaeth berthnasol arall.</p> <p>Gallai unrhyw fethiant i gydymffurfio ag amodau'r drwydded adlewyrchu'n wael ar lefel cymhwysedd y staff goruchwylio.</p> <p>Mae yna ddarparwyr hyfforddiant wedi'u hachredu sy'n darparu cyrsiau perthnasol, ac mae'n bosib y bydd deiliaid trwyddedau yn ystyried bod budd i'w staff fynd ar y cyrsiau hyn.</p> <p>Dylai ymweliadau rheolaidd ddigwydd o leiaf deirgwaith y dydd.</p>
<p>4.3 Nifer Uchaf o Gŵn y Gellir eu Cadw</p> <p>a. Nodir y nifer uchaf o gŵn y gellir eu cadw ar unrhyw un adeg yn y sefydliad ar y drwydded ac ni ellir cadw rhagor o gŵn na hynny.</p> <p>b. Ni ddylai'r nifer o gŵn, dan unrhyw amgylchiadau, fod yn uwch na 40 am bob gweithredwr LLAWN amser ac 20 ar gyfer pob gweithredwr RHAN amser sy'n gweithio yn yr eiddo.</p> <p>c. Rhaid cwtogi ar y nifer o gŵn preswyl a ganiateir os oes methiant i gydymffurfio â gofynion y drwydded.</p> <p>d. Rhaid darparu cwt ar wahân i bob ci ac eithrio bod y cŵn yn dod o'r un cartref, ac wedyn gallant rannu cwt gyda chaniatâd llafar gan berchennog y cŵn, cyn belled fod maint y cwt yn ddigonol er mwyn iddynt fod yn gyfforddus.</p>	<p>Dylai nifer y staff fod yn ddigonol i sicrhau fod pob ci tra'u bod yn preswyl yn derbyn sylw unigol digonol i sicrhau bod eu hanghenion iechyd a lles yn cael eu diwallu.</p> <p>Rhoddir ystyriaeth gan yr awdurdod trwyddedu i'r sefydliad yn ei gyfanrwydd; gan gynnwys llety sydd ar gael, cyfleusterau ymarfer corff, cydymffurfiaid â gofynion iechyd a lles a lefel o gydymffurfiaid parhaus â'r drwydded.</p> <p>Lle nad ydyw'r awdurdodau trwyddedu yn fodlon gyda gallu deiliad bwriedig y drwydded neu ddeiliad presennol y drwydded, gallent leihau ar y nifer o gŵn y gall gweithredwr ofalu amdanynt. Efallai y bydd modd profi tystiolaeth o hyn os ydynt yn methu ag ateb amodau'r drwydded e.e. diffyg ymarfer corff i gŵn a glanweithdra gwael.</p> <p>Gweithredwr llawn amser yw rhywun sy'n gweithio am isafswm o 30 awr yr wythnos ac mae gweithredwr rhan amser yn</p>

5. Iechyd a Lles

Rhaid cymryd camau rhesymol i atal a rheoli clefydau heintus neu ymledol rhag lledaenu ymysg anifeiliaid. Rhaid i unrhyw anifail sâl neu sydd wedi'i anafu dderbyn gofal a thriniaeth addas heb oedi. Mae cyfleusterau arwahanu, offer cymorth cyntaf a diogelwch tân yn hanfodol.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid i bob sefydliad preswyl gofrestru gyda Milfeddyg a sicrhau bod manylion llawn ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu. b. Rhaid gwybod pwy yw milfeddyg y cleientiaid, ac ymgynghori â nhw os oes angen. c. Rhaid galw milfeddyg y sefydliad lle ceir arwyddion o glefyd, anaf neu salwch. d. Pan fydd ci yn sâl neu wedi'i anafu rhaid dilyn unrhyw gyfarwyddiadau triniaeth a roddwyd gan y milfeddyg yn llym. 	<p>Gellir cael cyfeiriadau milfeddygon gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon: http://www.rcvs.org.uk/FindAVet</p>
<p>5.2 Rheoli Clefydau a Rhoi Brechiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid cymryd camau digonol i atal a rheoli ymlediad clefydau heintus ac ymledol, a pharasitiaid ymhlith y cŵn, staff ac ymwelwyr. b. Rhaid i gŵn sy'n lletya neu'n preswyl gael cofnod diweddar o amddiffyniad wedi'i gymeradwyo gan filfeddyg rhag clefyd y cŵn, peswch cynel, hepatitis, firws parfo, 	<p>Gallai rhagofalon digonol gynnwys brechiadau atgyfnerthu blynyddol ac unrhyw gamau ataliol eraill ar ddisgresiwn deiliad y drwydded. Ym mhob achos, dylid gwneud hyn ar ôl ymgynghori gyda milfeddyg.</p>

<p>leptosbirosis ac unrhyw glefyd perthnasol arall.</p> <p>c. Rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw anifail sy'n marw yn yr eiddo. Rhaid i ddeiliad y drwydded wneud trefniadau i storio'r corff yn eiddo'r milfeddyg nes bod y perchnogion yn dychwelyd.</p>	
<p>5.3 Cyfleusterau Arwahanu</p> <p>a. Rhaid i gyfleusterau arwahanu gydymffurfio ag amodau eraill y drwydded, ond mae'n rhaid iddynt fod ar wahân yn gorfforol.</p> <p>b. Rhaid i'r cyfleusterau arwahanu hyn fod o leiaf 5 metr i ffwrdd o gytiâu eraill (Gweler hefyd 2.4 Tymheredd a Gwresogi).</p> <p>c. Rhaid i gyfleusterau arwahanu gael eu defnyddio os oes amheuaeth fod clefyd heintus yn bresennol.</p> <p>d. Rhaid i gyfleusterau digonol gael eu darparu i atal clefyd heintus rhag lleadaenu rhwng y cyfleusterau arwahanu a'r cytiâu cŵn eraill. Rhaid i'r rhain gynnwys dip diheintio traed a chyflenwi offer diogelwch personol i'w defnyddio yn y cyfleuster arwahanu yn unig.</p> <p>e. Rhaid golchi dwylo ar ôl gadael y cyfleusterau arwahanu cyn ymweld â'r cytiâu cŵn eraill.</p>	<p>Yn y lle cyntaf, dylid defnyddio cyfleusterau arwahanu os oes gan staff y cytiâu preswyl unrhyw bryderon ynglŷn ag iechyd y ci cyn gofyn am sylw Milfeddygol.</p> <p>Dylai unigolyn dynodedig ddelio gyda chŵn wedi'u harwahanu a allai sicrhau ei fod/bod yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau eu bod yn lleihau'r risg o leadaenu unrhyw afiechyd i gŵn eraill yn yr eiddo.</p> <p>Dylai hyn gynnwys mesurau bioddiogelwch sylfaenol gan gynnwys golchi dwylo, diheintio esgidiau a newid dillad (yn enwedig os yw afiechyd wedi'i gadarnhau) wrth fynd i mewn ac allan o'r cyfleuster.</p> <p>Gallwch weld rhestr o ddiheintyddion a gymeradwywyd ar: http://disinfectants.defra.gov.uk/</p>
<p>5.4 Gofynion Amrywiol</p> <p>a. Rhaid i offer cymorth cyntaf â digon o eitemau sy'n addas i'w defnyddio ar gŵn fod ar gael ac yn hygyrch ar y safle.</p> <p>b. Rhaid cadw amrywiaeth o fwseli o wahanol feintiau yn ogystal â dyfais ddal cŵn, ar y safle, a dylent fod wedi derbyn cymeradwyaeth yr awdurdod lleol.</p> <p>c. Rhaid i ddeiliad y Drwydded gymryd pob cam rhesymol i</p>	<p>Mae'n syniad da i ofyn i berchnogion pryd oedd gast heb ei hysbaddu yn ei thymor diwethaf, fel bod staff y cytiâu cŵn yn ymwybodol os yw'r ast yn debygol o ddod i dymor yn ystod yr arhosiad.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau yn gweithredu llinell frys "y tu</p>

<p>ddiogelu geist cynhaig ac atal eu cyswllt gyda'r cŵn.</p> <p>d. Pe bai ci yn dianc neu'n mynd ar goll o gytau cŵn preswyl trwyddedig, rhaid i'r sawl â thrwydded roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a heb ormod o oedi. Rhaid rhoi manylion llawn y dyddiad, amser, lleoliad ac amgylchiadau'r digwyddiad, disgrifiad o'r ci, manylion llawn y perchennog, ac unrhyw gamau adfer a gymerwyd yn barod gan ddeiliad y drwydded i'r Awdurdod Trwyddedu.</p>	<p>allan i oriau", gellir rhoi gwybod am unrhyw gŵn sydd wedi dianc i'r cyfleuster hwn yn y lle cyntaf os nad ydych yn gallu cysylltu â'ch adran drwyddedu. Dylid cysylltu ag asiantaethau fel yr Heddlu a dylid rhoi gwybod i Wasanaeth Warden Cŵn y Cyngor ar y cyfle cyntaf posibl hefyd.</p>
<p>5.5 Cludo Cŵn</p> <p>a. Rhaid i ddeiliaid trwydded sy'n cynnig gwasanaethau casglu a danfon sicrhau fod cerbydau yn cydymffurfio â rheoliadau cyfredol Lles Anifeiliaid sy'n cael eu Cludo.</p>	<p>Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r gofynion i sicrhau 'Lles Anifeiliaid sy'n cael eu Cludo'. Gallwch holi eich arolygydd trwyddedu am fanylion y rheoliadau cyfredol. Gall esiamplau gynnwys; Caets/caetsys cŵn wedi'u gosod yn ddiogel a digon o awyru. Yn ogystal â gofyniad i gael tystysgrif awdurdodi cludwyr.</p>
<p>5.6 Diogelu rhag Tân</p> <p>a. Rhaid cael cynllun argyfwng tân a gadael yr adeilad a rhybudd tân gweithredol, a rhaid i'r holl staff fod yn ymwybodol ohono.</p> <p>b. Gellir gosod hwn mewn man lle byddai'r holl staff yn ei weld.</p> <p>c. Dylai'r drefn hon gynnwys cyfarwyddiadau yn delio gyda ble byddai cŵn yn cael ei symud iddo.</p> <p>d. Rhaid cael digon o ffyrdd o gynnu'r larwm mewn achos tân neu unrhyw argyfwng arall.</p> <p>e. Rhaid cynnal offer diffodd tân a synwryddion yn gywir a'u gosod mewn lle addas. Mae angen rhoi gwasanaeth i ddiffoddwyr tân neu gael rhai newydd yn ôl yr angen.</p> <p>f. Dylid cynnal pob gosodiad a chyfarpar trydanol mewn</p>	<p>Yn achos rhagofalon tân mae hefyd angen ystyried: Mynediad ar gyfer Ymladdwyr Tân a Chyflenwadau Dŵr, Modd Dianc, Arwyddion Dim Ysmygu, Gosodiadau Trydanol, offer Ymladd tân a hysbysiadau. I gael manylion llawn gweler Atodlen B ynghlwm.</p>

<p>cyflwr diogel.</p> <p>g. Mae'n rhaid cael system torri cylched cerrynt gweddillol ar holl flociau'r cytiau.</p> <p>h. Ni ddylid lleoli offer gwresogi mewn lleoliad neu ddull lle mae modd iddynt beri risg o dân neu risg i gŵn.</p> <p>i. Rhaid cymryd rhagofalon i atal unrhyw ddeunyddiau rhag casglu a allai beri risg o dân.</p>	
<p>5.7 Diogelwch Offer Trydanol</p> <p>a. Mae'n rhaid i chi sicrhau fod pob system drydanol yn cael ei hadeiladu a'i chynnal yn ddigonol, er mwyn osgoi perygl, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989.</p>	<p>I gynorthwyo er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau, gweler yr adran yn ymwneud â gosodiadau trydanol.</p>

6. Cadw Cofnodion

Rhaid cadw cofnodion fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, gan roi manylion am yr holl wybodaeth berthnasol am bob ci sy'n preswyllo a chyfateb hynny gyda rhif unigol cwt y ci, i sicrhau bod y sawl sydd â thrwydded yn llwyr ymwybodol o anghenion unigol y ci.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>6.1 Cofrestr</p> <p>a. Rhaid cadw cofrestr o'r holl gŵn sy'n preswyllo. Mae'r wybodaeth a gedwir yn gorfod cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dyddiad cyrraedd a rhif y cwt ci • Enw'r ci, yn ogystal ag unrhyw farc adnabod arall, fel rhif microsglodyn neu datŵ 	<p>Dylai'r gofrestr fod mewn fformat sy'n glir ac yn hawdd i'w deall gan unrhyw staff a'r archwilydd trwyddedu.</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Disgrifiad, brîd, oed a rhyw'r ci • Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu'r ceidwad • Enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr unigolyn cyswllt tra bydd y ci'n preswyllo • Enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y ci • Dyddiad y disgwylir i'r ci adael a gwir ddyddiad gadael • Iechyd, lles a gofynion maeth <p>b. Rhaid sicrhau bod cofnodion ar gael am o leiaf 24 mis a'u cadw mewn dull i alluogi swyddog ag awdurdod i gael mynediad hawdd at wybodaeth o'r fath.</p> <p>c. Lle cedwir cofnodion ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi caled.</p> <p>d. Mae'n rhaid i'r gofrestr hefyd fod ar gael i aelodau o staff y sefydliad bob amser.</p>	
<p>6.2 Adnabod Cytiau Cŵn</p> <p>a. Rhaid rhifo pob cwt ci yn glir.</p> <p>b. Rhaid i enw a disgrifiad y ci sy'n preswyllo ar hyn o bryd, naill ai gael ei arddangos ar bob cwt ci neu fel arall, ar fwrdd gwyn/du ym mhob bloc o gytiau gyda rhif y cwt a manylion y ci wedi'u hysgrifennu'n glir arno.</p>	<p>Gall hwn fod mor syml â defnyddio cerdyn maint cerdyn post yn cynnwys enw a brîd y ci (fel isafswm), wedi'i gysylltu fel sy'n briodol i flaen pob cwt.</p> <p>Bwrdd gwyn/du gyda rhif pob cwt arno a manylion y preswlydd/preswylwyr presennol h.y. enw, brîd, gall gofynion dietegol neu arbennig, cynnig gwybodaeth gryno am yr holl gŵn sy'n preswyllo o fewn y bloc o gytiau ei hun.</p> <p>Mae'n bosibl nad yw'r tu allan i gytiau cŵn yn addas ar gyfer defnyddio bwrdd gwyn/du gan ei fod yn agored i'r elfennau.</p>

7. Deddf Lles Anifeiliaid 2006 – Gofynion Dyletswydd Gofal

Mae Adran 9 o'r Ddeddf uchod yn gosod dyletswydd gofal ar unigolyn sy'n gyfrifol am anifail. Mae'r Ddeddf yn datgan bod unigolyn yn cyflawni trosedd os nad ydynt yn cymryd camau rhesymol i sicrhau anghenion yr anifail hwnnw. Er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi manylion am ofynion penodol a chanllaw y mae'n rhaid i chi ei dilyn.

Lle ceir posibilrwydd bod Dyletswydd Gofal yn cael ei dorri o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, fe allai'r Cyngor ddewis cyflwyno Rhybudd Gwelliant i ddatrys y broblem.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>7.1 Meddyginiaeth Rheolaidd</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid i unigolyn cymwys ac addas roi meddyginiaeth neu driniaeth reolaidd/ddyddiol i unrhyw gi sy'n preswyllo ac angen eu derbyn. b. Rhaid trafod faint a pha mor aml y dylid rhoi meddyginiaeth yn llawn a'u cofnodi cyn arhosiad y ci. 	<p>Mae'n arfer da i ddeiliad y drwydded gael tystiolaeth ysgrifenedig ynglŷn ag unrhyw ofynion meddyginiaeth i ddiogelu lechyd a Lles y ci ac i ddiogelu eu hunain rhag unrhyw broblemau yn y dyfodol.</p>
<p>7.2 Cymdeithasu</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid rhoi'r cyfle i bob anifail gael rhyngweithio a chael ysgogiad dyddiol. 	<p>Dylid cynnal ymarfer corff, chwarae a chyswllt arall â phobl i sicrhau bod cŵn yn cael digon o gyswllt â phobl i'r graddau fod hynny'n ymarferol, ac yn ddiogel, mewn cymhariaeth â hyd yr arhosiad yn y cwt ci.</p> <p>Mae nifer o gŵn yn derbyn cwmnïaeth pobl bron yn ddi-dor ond yn cael ychydig neu ddim cyswllt â chŵn eraill. Gallai gosod y cŵn hyn mewn amgylchedd lle mae nifer o gŵn achosi ofn a straen, felly wrth gyflawni unrhyw gymdeithasu dylai ystyried natur ac anghenion y ci unigol, ynghyd a dymuniadau'r client.</p>
<p>7.3 Symbyliad Gweledol/Clywedol</p>	<p>O safbwynt dyluniad adeilad cytiau newydd, bydd 'golygfa' o bob</p>

<p>a. Wrth adeiladu o'r newydd neu ychwanegu at neu adnewyddu cytiau cŵn presennol, dylid codi adeiladau yn y fath fodd fel eu bod yn cynnig symbyliad gweledol / clywedol a difyrrwch i'r cŵn sy'n cael eu cadw lle bod hynny'n bosibl.</p>	<p>cwt yn golygu modd o gael symbyliad gweledol / clywedol neu fel arall gynnwys teledu neu ddarpariaeth radio ym mhob bloc er mwyn i bob ci fedru gwyllo / gwranddo arno am gyfnodau drwy gydol y dydd.</p>
<p>7.4 Adnabod Cŵn</p> <p>a. Dylai fod yn hawdd adnabod y cŵn drwy fodd priodol.</p>	<p>Dylai pob ci preswyl wisgo tagiau Adnabod cŵn yr Eiddo e.e.: "Rwy'n aros yng Nghytiau Preswyl Cŵn ABC" a'r manylion cyswllt.</p> <p>Mae hwn yn arfer da ac yn arbennig o bwysig pan fod cŵn yn derbyn ymarfer corff (gyda chaniatâd y perchnogion) tu allan i'r eiddo trwyddedig. Os bydd y ci yn mynd ar goll gall hwyluso aduniad buan.</p>

Argymhelliad

Argymhelliad	Canllaw
<p>Polisi Yswiriant</p> <p>Fe argymhellir yn gryf y dylai pob sefydliad preswyl gael yswiriant cynhwysfawr a digonol.</p>	<p>Dylai'r yswiriant ddelio ag amrywiaeth eang o "anffodion yn cynol", o ofal milfeddyg mewn argyfwng, colled, atebolrwydd trydydd parti, ac atebolrwydd y cyflogwr lle bo'n briodol.</p>

MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â GWEITHREDU SEFYDLIAD TRWYDDEDIG

A. TREFN APELIO

Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 - Adran 1 (4)

Caniateir i unrhyw un a dramgwyddir gan wrthodiad awdurdod lleol i roi trwydded o'r fath, neu gan unrhyw amod y mae trwydded o'r fath yn ddarostyngedig iddo, apelio i'r Llys Ynadon; a chaiff y Llys roi pa bynnag gyfarwyddiadau fel yr ystyria sy'n briodol ynghylch y drwydded neu ei hamodau fel y gwêl yn briodol.

B. CANLLAW RHAGOFALON TÂN

Rhoddir y wybodaeth ganlynol i'r sawl â thrwydded, er mwyn cydymffurfio â gofynion rhagofalon tân sydd wedi'u manylu yn amodau trwyddedu'r Cyngor, sy'n gofyn am gymryd camau priodol i ddiogelu anifeiliaid mewn achos tân neu unrhyw argyfwng arall.

Bwriad y canllaw yw sicrhau bod y ffyrdd o ddianc a rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol i breswylwyr dynol. Dylid cadw mewn cof y gallai deddfwriaeth arall ymdrin â gofynion diogelwch tân i bobl.

Dylid ystyried y materion canlynol :

1. Mynediad at Gyflenwadau Diffodd Tân a Dŵr – Dylid darparu mynediad da at offer diffodd tân (lled o 3.7m ar y lleiaf) i bob hydrant a ffynonellau dŵr eraill a dylid darparu llawr caled. Dylid dangos bwrdd gydag enw'r eiddo yn glir ger y mynediad ffordd agosaf.
2. Ffyrdd o Ddianc – Dylid dylunio llwybrau dianc i anifeiliaid sy'n ffordd syth allan o'r adeiladau, gyda chyn lleied â phosibl o gymorth dynol. Dylid trefnu drysau lloctiau fel y gall anifeiliaid adael yn sydyn a dylid osgoi troadau llym, rhwystrau a rampiau ar y llwybrau dianc cyn belled â phosibl.
 - a) Dylai'r eiddo gael allanfeydd sydd â digon o led ac uchder i ganiatáu mynediad hawdd at yr anifeiliaid ar bob adeg.
 - b) Dylid gallu agor allanfeydd yn hawdd o'r tu mewn heb ddefnyddio goriad.
 - c) Os oes angen, dylid gwneud darpariaeth i gael gafael ar ddeiliad goriad yn sydyn.

Mewn adeiladau sy'n fwy na 18 metr mewn lled neu le ceir nifer fawr o anifeiliaid, dylid darparu dwy allanfa a'u lleoli cyn belled i ffwrdd o'i gilydd â phosibl. Dylai'r pellter teithio gael ei gyfyngu i 45 metr.

3. Arwyddion Dim Ysmygu – Dylid dangos Arwyddion Dim Ysmygu ym mhob ardal sydd gyda gwair a gwellt a lle bo'n ymarferol, dylid cymryd rhagofalon yn erbyn mynediad heb awdurdod, yn enwedig gan blant.
4. Gosodiadau trydanol – Dylid glanhau gosodiadau trydanol gan gynnwys lampau, yn rheolaidd fel nad ydyw llwch yn casglu. Dylid gosod a diogelu offer trydanol, gwresogyddion ac ati fel eu bod yn bellter diogel o unrhyw ddeunydd gwely fflamadwy.
5. Offer Diffodd Tân
 - a. Diffoddwyr Tân Cludadwy – Mae'r canlynol yn cael eu hargymell ar y lleiaf:
 - Mae adeiladau nad ydynt yn fwy na 200 metr sgwâr mewn arwynebedd yn gofyn am o leiaf 2x9 litr o ddiffoddwyr dŵr, i adeiladau dros 200 metr sgwâr mae angen diffoddwr tân ychwanegol am bob 200 metr sgwâr ychwanegol neu ran ohono.
 - Rhaid i ddiffoddwyr tân cludadwy ateb gofynion BS EN 3 a chael eu gosod a'u cynnal yn unol â'r argymhellion a roddir yn BS 5306.
 - Yn dibynnu ar ganlyniad eich asesiad risg tân, gallai fod yn bosibl lleihau hyn i un diffoddwr mewn eiddo bach iawn, gyda gofod llawr sy'n llai na 90m².
 - **Ni ddylid** defnyddio diffoddwyr tân sy'n cynhyrchu sŵn uchel, e.e. CO₂, neu gymylau mawr o bowdr sych, yn agos at anifeiliaid.
 - b. Peipiau Dŵr – Gellir darparu peipiau dŵr fel dull opsiwn gwahanol i ddiffoddwyr tân cludadwy. Dylid cael un beipen ar gyfer bob 800 metr sgwâr o arwynebedd neu ran ohono ar y lleiaf. Fe ddylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Mae peipiau golchi yn dderbyniol os oes llif rheolaidd o ddŵr sy'n gallu cynhyrchu ffrwd dŵr o 5 metr ar y lleiaf. Ni ddylai peipiau dŵr fod yn fwy na 45m o hyd a dylid eu lleoli fel y gellir mynd â'r chwistrell o fewn i 6m o bob rhan o'r eiddo sydd wedi'i ddiogelu.
6. Rhybuddion Tân – Dylai pob aelod o staff yn y sefydliad fod yn gyfarwydd gyda pha gamau gweithredu y dylid eu cymryd mewn achos tân. Rhaid darparu rhybudd ysgrifenedig ac amlwg yn dynodi'r camau i'w cymryd mewn achos tân a lleoliad y ffôn agosaf. Gall y rhybudd hwn gynnwys y canlynol:

“Wrth ddarganfod tân, sicrhewch fod yr adeilad yn cael ei wagio.

Ffoniwch y Frigâd Dân {mae'r ffôn agosaf yn

Ceisiwch ddiffodd y tân drwy ddefnyddio'r offer diffodd tân a ddarperir, os yw hi'n ddiogel i wneud hynny ac ati”

7. *Cyfeirnod Map O/S – Dylid cael Cyfeirnod Map Arolwg Ordnans ar gyfer yr eiddo a'i arddangos gyda'r Rhybudd Tân a ddarperir.*

Mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn gofyn bod yr holl ragofalon tân hanfodol yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu unigolion perthnasol rhag ofn y bydd tân yn yr eiddo ac o'i gwmpas, y mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys iddo.

Mae'r cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r gorchymyn gyda'r 'unigolyn cyfrifol'. Mewn gweithle, y cyflogwr yw hwn ac unrhyw unigolyn arall a all fod â rheolaeth o unrhyw ran o'r eiddo, e.e. y deiliad neu'r perchennog. Mewn unrhyw eiddo arall yr unigolyn/unigolion mewn rheolaeth o'r eiddo fydd yn gyfrifol.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol:

Gynnal Aseiad Risg Tân a rhaid cofnodi'r canfyddiadau arwyddocaol os oes pump neu fwy o unigolion yn cael eu cyflogi, os yw'r eiddo wedi'i drwyddedu neu os yw hysbysiad newidiadau ar waith.

I'ch cynorthwyo chi ymhellach, mae'r Fire Safety Guide to Animal Premises and Stables (ISBN: 978 1 85112 884 6) ar gael o'r Stationary Office neu drwy wefan yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (www.communities.gov.uk).

C. IECHYD A DIOGELWCH

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn gymwys i bob busnes, waeth bynnag pa mor fychan ydyw. Fel cyflogwr neu unigolyn hunan gyflogedig, rydych yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae angen i chi gymryd y camau cywir i leihau'r risgiau o beryglon gweithle a darparu amgylchedd gwaith diogel.

Ceir canllaw o'r enw "Health and safety made simple". Mae'r canllaw hwn yn gwneud bywyd yn haws i chi drwy ddarparu'r wybodaeth sylfaenol ynglŷn â beth rydych angen ei wneud mewn un lle. Bydd yn eich helpu i roi cychwyn arni wrth reoli iechyd a diogelwch yn eich busnes.

Efallai y bydd angen i chi wneud rhai pethau ychwanegol gydag ambell i weithgaredd i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gellir cael canllawiau pellach ar bynciau penodol fel rheoli asbestos, atal salwch ar ôl cysylltu ag anifail ac ati, a modelau

asesiadau risg ar gael ar-lein ar www.hse.gov.uk. Gallwch hefyd gysylltu â'r Tîm Iechyd a Diogelwch yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 01492 575283 a gofynnwch am y swyddog dyletswydd neu anfonwch e-bost atom ar gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk

Gellir llwytho'r daflen "Health and Safety made simple" i lawr drwy ddilyn y ddolen gyswilt ganlynol:
<http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf>